Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

**2020-2023**

# Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



Cyfranogwywr mewn gweithdy Bardd Plant, 2019.



# Cefndir a Chynnwys

Yn **Llenyddiaeth Cymru**, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu llenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd sy'n gynrychioladol ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud ein gorau glas i sicrhau gwell cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn i'r sector llenyddiaeth ffynnu a bod yn ystyrlon i bawb. Mae'r gred hon wedi'i hadlewyrchu yn ein cenhadaeth, ac mae'n greiddiol i'n rhaglen o weithgareddau.

**Ein Cenhadaeth**

Byddwn yn ysbrydoli cymunedau, yn datblygu awduron, ac yn dathlu diwylliant llenyddol Cymru drwy wneud y pethau hyn:

- **gwneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch a chynyddu'i effaith i gyfranogwyr yng Nghymru**
- **galluogi egin awduron i achub ar gyfleoedd I fireinio'u sgiliau a meithrin sgiliau mwy amrywiol**
- **cryfhau ystod, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru.**

Bydd hyn yn creu Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

**Ein Gwerthoedd**

Mae ein gwerthoedd yn sail i'n gwaith ac yn llywio'r gwaith hwnnw. Bydd pawb sy'n ymwneud â Llenyddiaeth Cymru – ein Cyfarwyddwyr, aelodau'r staff, partneriaid a gwirfoddolwyr – yn parchu'r egwyddorion canlynol ac yn glynu wrth y rhain:

**Creadigrwydd**
Mae gan bawb yr hawl i fod yn greadigol ac i fod yn rhan o ddiwylliant bywiog Cymru

**Iaith**
Parchu a meithrin ieithoedd Cymru

**Cydraddoldeb**
Mae cydraddoldeb yn angenrheidiol ar gyfer rhyddid mynegiant

**Cynrychiolaeth**
Rhoi llais i'r rheini sydd wedi'u tangynrychioli

**Eirioli**
Hyrwyddo ac ymgyrchu dros fanteision celfyddydau llenyddol sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru

**Partneriaeth**
Gweithio gyda phobl eraill i gyflawni mwy

**Dynamig**
Croesawu newid, parhau i ddysgu, a pharodrwydd i addasu

**Gwaddol**
Ysgogi newid go iawn yn y tymor hir

# Cefndir a Chynnwys

Drwyddo draw, nid yw'r sector llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru nac yn y Deyrnas Unedig yn gynrychioladol. Yn ôl *Reflecting Realities*, sef astudiaeth o gynrychiolaeth yn llenyddiaeth plant y Deyrnas Unedig, dim ond 7% o'r llyfrau plant a gyhoeddwyd yn y 3 mlynedd ddiwethaf (2017, 2018, 2019) oedd yn cynnwys cymeriadau o gefndir pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a dim ond mewn 5% o lyfrau oedd y prif gymeriad o leiafrif ethnig. Yn yr un modd, mae *Er Budd Pawb*, Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-2023, yn dangos mai dim ond 2% o weithluoedd y sefydliadau sy'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru sy'n anabl, tra mai 3% yw'r ffigur cyfatebol ar gyfer gweithwyr o gefndir pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2018). Yn 2020, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru ddatganiad ar ôl cyhoeddi rhestr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn, rhestr ac arni awduron gwyn yn unig. Mynegwyd ein siom yn y datganiad hwn, ynghyd â'n dyhead i wneud newidiadau ac i fod yn sefydliad sy'n ysgogi diwylliant llenyddol cenedlaethol a hwnnw'n cynrychioli holl amrywiaeth y Gymru gyfoes.

Mae pobl o rai cefndiroedd demograffig yn dal i wynebu rhwystrau niferus wrth geisio ymwneud â llenyddiaeth a dilyn gyrfa ysgrifennu broffesiynol. Yn eu plith mae prinder trafnidiaeth, anawsterau wrth ymwneud â rhwydweithiau proffesiynol, diffyg gwybodaeth am y diwydiant, diffyg cynrychiolaeth mewn gwaith cyhoeddedig, diffyg hyder, a diffyg cyfleoedd hygyrch a chynhwysol.

Dyma pam ein bod wedi cyflwyno'r **Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** hwn. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'n **Cynllun Strategol 2019-2022**, ynghyd â ***Chynllun Datblygu'r Gymraeg*** a'n ***Polisi Cyfle Cyfartal Adnoddau Dynol*** (gweler Atodiad 1). Rydym yn rhoi pwys mawr ar ein rôl ganolog fel prif asiantaeth datblygu llenyddiaeth Cymru, ac fel corff sy'n buddsoddi mewn pobl eraill ac yn eirioli dros holl awduron Cymru.

Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ceisio llywio ein gweithgareddau ni'n hunain, ynghyd â gweithgareddau y bydd pobl eraill yn eu trefnu gyda'n cyllid a'n cefnogaeth ni. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd wedi deillio o ymgynghori rheolaidd â'r sector, ffrindiau beirniadol a rhanddeiliaid, ynghyd ag o adolygiadau rheolaidd o'n gweithgareddau cyfredol. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn ystyried y cyd-destun deddfwriaethol ehangach, ac yn benodol *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* a *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (gweler Atodiad 1).



# Diffiniadau

## Cydraddoldeb

Yn ei hanfod, mae cydraddoldeb yn golygu trin pawb yn deg. Ond nid yw hyn yn golygu y dylid trin pawb yn union yr un fath – bydd gan rai pobl gryn fantais eisoes gan eu bod yn gallu prynu tocynnau a theithio i ddigwyddiadau llenyddol, neu gan eu bod yn gwybod sut i drefnu i gyhoeddi'u gwaith neu sut i roi llwyfan i'w gwaith. Ein nod ni yw sicrhau bod ein cyfleoedd ar gael yn gyfartal i bawb, a hynny drwy ganfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau cynhwysiant y mae ein gweithlu, ein hawduron, ein cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae cydraddoldeb yn golygu agor drysau a oedd gynt ar gau.

## Amrywiaeth

Term yw amrywiaeth sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r ffaith bod pawb yn wahanol. Mae'n pwysleisio y dylid parchu, cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau hyn, a nodweddion gwarchodedig yn enwedig. Bydd cael gweithlu amrywiol yn golygu bod gennym wybodaeth helaeth sy'n deillio o brofiadau bywyd pobl, a hynny'n ei dro'n golygu ein bod ni'n gwasanaethu ein cynulleidfaoedd amrywiol yn well. Bydd sîn lenyddol amrywiol yng Nghymru yn sicrhau bod lleisiau ein holl gymunedau'n cael eu cynrychioli a'u clywed, gan ysbrydoli'r cenedlaethau nesaf o awduron a chynulleidfaoedd.

## Cynhwysiant

Drwy sôn am gynhwysiant, rydym yn golygu bod yn groesawgar ac yn garedig wrth ddod ag ystod amrywiol o bobl ynghyd yn y sector celfyddydau a llenyddiaeth – boed yn awduron, cynulleidfaoedd, gweithwyr llenyddol proffesiynol, cynhyrchwyr, staff, darllenwyr neu gyfranogwyr – a hynny waeth beth fo'u cefndir. Rydym yn gwmni cenedlaethol sydd â gwerthoedd cynhwysol, ac rydym am i bawb yng Nghymru allu ymwneud â ni ac â'n gwaith.

# Cwmpas

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn berthnasol i holl weithwyr a Chyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru, ac mae'n rhoi sail ar gyfer cynllunio a chyflawni ein blaenoriaethau strategol, o gynllunio arferion gwaith, i wneud penderfyniadau cyllido, i ddatblygu gweithgareddau. Mae'r cynllun hwn hefyd yn berthnasol i'n partneriaid a'r unigolion a'r sefydliadau y byddwn yn eu cyllido ac yn buddsoddi ynddynt, a'r rheini sy'n cynrychioli Llenyddiaeth Cymru. Yn eu plith mae awduron unigol, sefydliadau llenyddol, pobl sy'n darparu gweithdai cymunedol, a chontractwyr. Rydym yn gofyn i'r holl bartneriaid rydym yn eu cyllido i hyrwyddo egwyddorion y cynllun hwn ac i weithio gyda ni er mwyn ein helpu i gyflawni a datblygu'r targedau sydd ynddo drwy eu gwaith. Byddwn hefyd yn parhau i weithredu ar sail canlyniadau gwerthusiadau, adborth a datblygiadau ehangach yn y sector er mwyn rhoi sail i'r cynllun hwn a'i ddatblygu'n barhaus.



# Y Manylion

**Pam mae cynrychiolaeth a chyfleoedd cyfartal yn bwysig mewn llenyddiaeth**

Mae llenyddiaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y cysyniad o ryddid mynegiant. Fodd bynnag, mae gwir ryddid yn golygu rhoi cyfleoedd cyfartal a chynrychiolaeth deg. Pan na fydd hynny'n digwydd, nid ar lefel unigolion yn unig y bydd y golled i'w theimlo. Mae cynrychioli amrywiaeth Cymru yn ein gwaith llenyddol ac ymhlith ein hartistiaid yn hanfodol er mwyn rhoi dyfodol da i'n llenyddiaeth, ein cymdeithas, ein heconomi a'n diwylliant – ac i hybu lles pawb. Mae'n golygu manteisio i'r eithaf ar botensial y dalent sydd yng Nghymru, ac mae'n sicrhau'r effaith fwyaf o'r canlyniadau niferus sy'n gallu deillio o lenyddiaeth, gan gynnwys gwell gallu i ddangos empathi, llai o unigrwydd, a lefelau uwch o hunanymwybyddiaeth, ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-werth.

Pan na fydd pobl yn eu gweld eu hunain yn yr hyn maent yn ei ddarllen, maent yn llai tebygol o lawer o chwilio am weithiau eraill ac yn llai tebygol o weld gwerth mewn ysgrifennu creadigol. Pan na fyddant yn eu gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli gan y sefydliadau ac o fewn y sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd creadigol, maent yn llai tebygol o lawer o ymwneud â'r cyfleoedd hynny ac o wneud cais amdanynt.

Dylai awduron Cymru gynrychioli ystod o oedrannau, cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, rhywedd, crefyddau ac ieithoedd, ac ni ddylai un proffil demograffig penodol eu nodweddu. Nid yw hyn yn golygu eithrio neb; mae'n golygu rhoi mynediad cyfartal a theg i gyfleoedd i arloesi'n artistig a datblygu'n broffesiynol.

Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) (gweler Atodiad 1) ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio diwylliant fel egwyddor datblygu cynaliadwy, gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Mae ein canlyniadau sefydliadol, sydd wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Strategol 2019-2022 (gweler Atodiad 1), i gyd yn cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf.

**Y cysylltiadau â Chynllun Strategol 2019-2022**

Ar sail ein dealltwriaeth o rym llenyddiaeth a'i allu i wella a gweddnewid bywydau, a'r angen i'n gweithgareddau ganolbwyntio ar gael yr effaith fwyaf, rydym wedi pennu Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb yn un o'n tair Blaenoriaeth Dactegol a fydd yn trawstorri ein holl Golofnau Gweithgaredd. Nid math o weithgaredd yw hwn ond blaenoriaeth thematig a fydd yn ymddangos ym mhopeth y byddwn ni'n ei ddarparu, yn ein gwaith partneriaeth, ac yn ein gwaith hwyluso.

- Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb: Drwy sicrhau cynhwysiant cynrychioladol drwy ein gweithgareddau a'n strwythurau mewnol, byddwn yn rhoi platfformau ac yn annog lleisiau llenyddol sydd wedi'u tangynrychioli, gan greu diwylliant llenyddol cenedlaethol sy'n cynrychioli'r Gymru fodern. (I gael rhagor o wybodaeth, gweler Atodiad 1)

**Pa Nodweddion Gwarchodedig Cleientiaid a Dargedir y byddwn yn canolbwyntio arnynt?**

Drwy'r Cynllun Gweithredu hwn, byddwn yn targedu'r nodweddion canlynol, ac yn eu blaenoriaethu pan fydd angen:

| | | |
|---|---|---|
| Unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | Unigolion ar incwm isel | Unigolion sydd ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol) |

Rydym wedi dewis y grwpiau hyn o unigolion gan eu bod wedi'u tangynrychioli yn Niwylliant Llenyddol Cymru ar hyn o bryd. Byddant yn elwa drwy rym llenyddiaeth i newid bywydau, ac maent yn cyd-fynd orau â'n gwerthoedd.

Yn ogystal, byddwn yn mynd ati'n bwrpasol i weithio tuag at gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (gweler Atodiad 1), a sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yng Nghynllun Datblygu'r Gymraeg Llenyddiaeth Cymru (gweler Atodiad 1).

# Fframwaith a Thargedau

| | Rydym wedi gosod y targedau canlynol i'n hunain, a hynny ar sail data'r Cyfrifiad ar gyfer Cymru (gweler Atodiad 1). Maent yn berthnasol i'n holl weithgareddau : | | |
|---|---|---|---|
| Ein Targedau | **10%** | **7%** | **20%** |
| Nodweddion Cleientiaid a Dargedir | Unigolion sydd ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol) | Unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | Individuals on low incomes |

Yn achos yr uchod i gyd, mae'r canrannau hyn yn berthnasol, ym mhob blwyddyn ariannol, i'r canlynol :

| | |
|---|---|
| Targed 1: | % y cyfranogwyr creadigol a chynulleidfaoedd sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a ddarperir yn uniongyrchol neu a gefnogir gan Llenyddiaeth Cymru |
| Targed 2: | % yr awduron a/neu hwyluswyr gweithdai sy'n darparu prosiectau a ddarperir yn uniongyrchol neu a gefnogir gan Llenyddiaeth Cymru |
| Targed 3: | % yr awduron profiadol sy'n ymwneud â phrosiectau a ddarperir yn uniongyrchol neu a gefnogir gan Llenyddiaeth Cymru |
| Targed 4: | % y cynulleidfaoedd yn ein gweithgareddau datblygu proffesiynol (e.e. hyfforddiant a digwyddiadau) |
| Targed 5: | % ein gweithwyr, gwirfoddolwyr a Chyfarwyddwyr, yn ogystal â rhai'r sefydliadau rydym yn eu cefnogi ac yn bartneriaid iddynt |

Trosolwg o'r Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi creu tri phrif ganlyniad i ddeillio o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac mae'r rhain yn ein galluogi i ganolbwyntio ar elfen benodol ym mhob un o'n Colofnau Gweithgaredd

| Colofn Gweithgarwch | Ffocws y Cynllun Gweithredu | Canlyniad y Cynllun Gweithredu | Methodoleg y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Cyfranogi | Gwella mynediad a chreu'r effaith fwyaf | Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n ehangach ac yn sicrhau gwell hygyrchedd i weithgareddau ysgrifennu creadigol, ac yn ceisio sicrhau'r effaith fwyaf drwy'r gweithgareddau hynny. | Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio partneriaid a phlatfformau hygyrch i gyrraedd mwy o gyfranogwyr ar yr adeg iawn, gan ddatblygu perthnasau ystyrlon â grwpiau i sicrhau effaith hirdymor. |
| Datblygu Awduron | Cyfleoedd datblygu proffesiynol a chyllid i awduron | Byddwn yn datblygu ystod ehangach o awduron drwy gynlluniau hyfforddiant dwys a buddsoddiad hirdymor | Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol a chyllid i awduron o gefndiroedd amrywiol. |
| Diwylliant Llenyddol Cymru | Cynrychiolaeth | Byddwn yn sicrhau gwell amrywiaeth a chynrychiolaeth yn Niwylliant Llenyddol Cymru | Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod awduron o gefndiroedd amrywiol yn cael eu hyrwyddo ac yn cael llwyfan drwy gyfleoedd proffil uchel pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. |

At hynny, byddwn yn mynd ati'n bwrpasol i weithio tuag at gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (gweler Atodiad 1), sy'n ceisio creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn anelu i sicrhau bod 30% o unigolion drwy ein holl weithgareddau yn dynodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yng Nghynllun Datblygu'r Gymraeg Llenyddiaeth Cymru (gweler Atodiad 1). Byddwn hefyd yn gweithio'n bwrpasol gyda sefydliadau eraill yn y maes llenyddiaeth a chyhoeddi i sicrhau cynrychiolaeth well yn gyffredinol yn y sector llenyddiaeth, e.e. gyda Chyngor Llyfrau Cymru ynghyd â chyhoeddwyr, cyfnodolion a gwerthwyr llyfrau.

# Gwella mynediad a chreu'r effaith fwyaf

**Canlyniad 1:**

Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n ehangach, yn sicrhau gwell hygyrchedd ac yn creu mwy o effaith drwy weithgareddau ysgrifennu creadigol.

Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio partneriaid a phlatfformau hygyrch i gyrraedd mwy o gyfranogwyr ar yr adeg iawn, gan ddatblygu perthnasau ystyrlon â grwpiau i sicrhau effaith hirdymor.

Dylai pawb allu cyfranogi ym mhob ffurf ar y celfyddydau llenyddol, ond nid yw pawb yn cael yr un cyfleoedd. Rydym yn cydnabod nad ydym yn byw mewn cymdeithas gwbl gyfartal a theg. Nid yw nifer o bobl yng Nghymru yn gallu achub ar gyfleoedd, ac mae nifer yn cael eu gwthio i'r cyrion. Dyna pam ein bod yn blaenoriaethu gwaith gyda chymunedau lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl.

Byddwn yn ymwneud yn uniongyrchol ag unigolion a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, a hynny ar draws ystod o brofiadau diwylliannol a ffurfiau llenyddol, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o unigolion yn gallu ymwneud ac arbrofi â llenyddiaeth. Byddwn hefyd yn ceisio uwchsgilio ac ymwneud â mwy o hwyluswyr ac arweinwyr gweithdai sydd â phrofiadau bywyd sy'n adlewyrchu'r unigolion a'r cymunedau y byddant yn gweithio gyda nhw, gyda'r nod o ysbrydoli pobl a'u hannog i gyfranogi.

Fel rhan o'n gweithdai, digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau, byddwn yn cyfeirio cyfranogwyr sy'n cynrychioli'r nodweddion a dargedir, ac sydd â photensial creadigol, at gyfleoedd sy'n rhan o'n gweithgareddau datblygu awduron. Bydd hynny'n fodd o chwilio am dalent ymhlith unigolion a allai elwa o'n buddsoddiad.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n arbenigo mewn gweithio gydag unigolion a chymunedau penodol, ac mae gwaith partneriaeth o'r fath wedi bod yn llwyddiannus dros ben yn y gorffennol.

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gosod targedau ar gyfer ein digwyddiadau a'n prosiectau cyfranogi, a monitro a gwerthuso'r rhain yn rheolaidd.
- Parhau i ymchwilio ac astudio'r anghenion a'r galw cyfredol er mwyn datblygu gweithgareddau penodol sy'n cyd-fynd â hynny.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn y sector llenyddiaeth i achub ar gyfleoedd.
- Cyrraedd cyfranogwyr creadigol drwy bartneriaethau â sefydliadau eraill, gan gynnwys elusennau lleol a chenedlaethol, gan sicrhau hirhoedledd prosiectau e.e. drwy drosglwyddo prosiectau peilot llwyddiannus i sefydliadau partner a chymunedau.
- Cydweithio ag awduron, ymgyrchwyr ac arbenigwyr o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli i sicrhau bod y prosiectau sy'n cael eu datblygu'n addas ar gyfer y cleientiaid dan sylw.
- Hyfforddi mwy o awduron i ddarparu gweithgareddau llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol, gan gynnwys hyfforddiant ym maes diogelu a rhannu arferion gorau.
- Cynnig cyfleoedd cysgodi am dâl i hwyluswyr newydd er mwyn iddynt ddysgu gan eu cymheiriaid, er mwyn inni ehangu ein carfan o ddarparwyr.
- Trefnu mwy o weithgareddau ar blatfformau digidol, neu gynnig ysgoloriaethau teithio/hygyrchedd.
- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid i rannu'r arferion gorau, pecynnau cymorth ac adnoddau, a mynd ati'n bwrpasol i ofyn am gyngor gan bartneriaid arbenigol (e.e. Celfyddydau Anabledd Cymru).
- Gofyn am ddata monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan yr holl sefydliadau partner y byddwn yn gweithio gyda nhw.
- Parhau i gynnig cyfleoedd am dâl i awduron a hwyluswyr gan arwain at greu prosiectau creadigol newydd sy'n ymwneud â chyfranogwyr.
- Ystyried sut i ddarparu gweithgareddau addas i blant a phobl ifanc o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli, a hynny mewn ysgolion a'r tu allan iddynt, gan gynnwys rhoi llwyfan i hwyluswyr a hyrwyddwyr llenyddol amrywiol (e.e. beirdd plant) i ysbrydoli drwy fod yn bobl i'w hefelychu.

Tryloywder a Mesur Cynnydd

- Cynnal dadansoddiadau monitro a gwerthuso rheolaidd, gydag adroddiadau mewnol misol ac adroddiadau a gyhoeddir yn chwarterol
- Cyfathrebu effaith drwy fynd ati'n rheolaidd i rannu astudiaethau achos sy'n dangos arferion da a gwersi a ddysgir.
- Rhoi cynlluniau Cyfathrebu a Marchnata ar waith i gyfathrebu effaith ar y lefel uchaf a defnyddio astudiaethau achos yn rheolaidd ar gyfer gwaith eirioli.

Camau Ychwanegol

- Mynd ati'n bwrpasol i ofyn am gyngor arbenigol gan bartneriaid (e.e. Mind, Celfyddydau Anabledd Cymru, NSPCC, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, lleoliadau lleol, elusennau'r trydydd sector).
- Gweithredu a rhannu canlyniadau dysgu drwy gymryd rhan yng Nghynllun Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood.

Participation

Inspiring some of our most marginalised individuals and communities through active participation in literature

# Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol a Chyllid i Awduron

Canlyniad 2:

Byddwn yn datblygu ystod ehangach o awduron.

Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol a chyllido i awduron o gefndiroedd amrywiol.

Rydym yn mynd ati'n bwrpasol i ganfod a meithrin ystod ehangach o awduron o amrywiaeth o gefndiroedd, er mwyn cyflwyno mwy o amrywiaeth yn narpariaeth artistig Llenyddiaeth Cymru. Gwneir hyn drwy egwyddorion caffael newydd sy'n golygu bod ein gwariant ar ffioedd awduron yn cael ei rannu mewn ffordd decach, yn ogystal â thrwy ddatblygu cyfleoedd a gweithgareddau yn benodol ar gyfer awduron sy'n arddel Nodweddion Cleientiaid a Dargedir. Rydym yn blaenoriaethu cefnogaeth i egin awduron, gan fuddsoddi ar yr adeg iawn i sicrhau'r datblygiad proffesiynol ac artistig mwyaf posibl, gan annog awduron newydd i feithrin hyder yn eu gallu a'u sgiliau'u hunain. Rydym am weld awduron yn creu gweithiau newydd o bwys a'r rheini'n rhagorol, yn arloesol, yn radical ac yn gynrychioladol o'r Gymru gyfoes. Mae hyn hefyd yn cynnwys annog awduron profiadol i gymryd risgiau creadigol ac i arbrofi ag arddulliau a phlatfformau newydd.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'n holl ffrydiau cyllido, a byddwn yn parhau i neilltuo arian a chyfleoedd datblygu proffesiynol yn benodol ar gyfer pobl sydd â nodweddion cleientiaid a dargedir.

Mae ein cyfleoedd cyllido yn cael eu hysbysebu'n eang ac rydym yn mynd ati'n bwrpasol i annog ceisiadau gan bobl o ystod eang o gefndiroedd. Rydym yn ceisio symleiddio'r broses cymaint ag y bo modd, gan helpu'r bobl sydd angen cymorth pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. Rydym yn sicrhau bod ein paneli dethol yn amrywiol, yn cyfathrebu canlyniadau'n glir, yn rhoi adborth teg, ac wedi ymrwymo i dryloywder llwyr wrth wneud penderfyniadau cyllido. Caiff grantiau a dyfarniadau ariannol eu monitro a'u gwerthuso'n ofalus, ac rydym yn addasu ac yn newid ein cynlluniau cyllido'n barhaus i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Buddsoddi mewn prosiectau a chyfleoedd sy'n targedu'n benodol awduron sy'n arddel Nodweddion Cleientiaid a Dargedir er mwyn sicrhau gwell cynrychiolaeth yn ein diwylliant llenyddol.
- Pennu targedau yn ein cynlluniau cyllido a neilltuo cyfleoedd pan fydd hynny'n briodol.
- Mynd ati'n agored i recriwtio a phenodi paneli asesu amrywiol a fydd yn gwneud penderfyniadau cyllido.
- Sicrhau bod yr holl staff ac aelodau paneli sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael hyfforddiant ym maes Rhagfarn Ddiarwybod.
- Cynnig cyfleoedd ymgynghori rheolaidd gyda thâl i'n hawduron sy'n cael eu tangynrychioli i'n helpu i ddatblygu ein cynlluniau ac i sicrhau bod ein cynigion a'n cefnogaeth yn ystyrlon.
- Sicrhau bod y canllawiau a'r galwadau a wneir fel rhan o'n cynlluniau wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir a hygyrch.
- Sicrhau ein bod yn casglu data am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pawb sy'n cael cyllid a phob prosiect sy'n cael ei gefnogi.
- Sicrhau bod yr holl staff yn mynd ati'n bwrpasol ac yn ymwybodol i ymwneud ag ystod amrywiol o unigolion.
- Sicrhau bod ein cyfleoedd hyfforddi a'n digwyddiadau yn rhoi gofod diogel a chroesawgar i awduron sy'n cael eu tangynrychioli, e.e. drwy gomisiynu ystod eang o diwtoriaid yn Nhŷ Newydd ac ystod amrywiol o siaradwyr mewn digwyddiadau.
- Cyhoeddi ein hamcanion a'n targedau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel rhan o gynlluniau penodol, fel bod y disgwyliadau a'r gofynion yn glir. Bydd hyn yn cynnwys dynodi'r dulliau mesur wrth asesu o dan yr amcanion hyn, pan fydd hynny'n berthnasol i feini prawf cyllido.

Tryloywder a Mesur Cynnydd

- Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau cyllido, ac yn eu dadansoddi ochr yn ochr â'n hamcanion ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys cymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol.
- Cynnal dadansoddiadau monitro a gwerthuso, gydag adroddiadau mewnol misol ac adroddiadau a gyhoeddir yn chwarterol.
- Cyfathrebu effaith drwy fynd ati'n rheolaidd i rannu astudiaethau achos sy'n rhoi sylw i arferion da a gwersi a ddysgir.

Camau Ychwanegol

- Annog gwaith mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n rhoi pwyslais penodol ar gydraddoldeb, e.e. Celfyddydau Anabledd Cymru.
- Sicrhau ein bod yn cyfathrebu ein heffaith ac yn dathlu ein cyflawniadau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein holl ffrydiau cyllido ac ariannu.

# Cynrychiolaeth

**Canlyniad 3:**

Byddwn yn sicrhau gwell amrywiaeth a chynrychiolaeth yn Niwylliant Llenyddol Cymru.

Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod awduron o gefndiroedd amrywiol yn cael eu hyrwyddo ac yn cael llwyfan drwy gyfleoedd proffil uchel pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Rydym yn credu bod yn rhaid i'r staff sy'n gweithio yn y sector celfyddydau yng Nghymru fod yn amrywiol os yw'r sector i fod yn gwbl gynhwysol, ac mae gennym gyfrifoldeb i gefnogi a hwyluso hyn. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i gynrychiolaeth ddod law yn llaw â chyfleoedd, ac rydym wedi ymrwymo i greu gweithlu a Bwrdd Rheoli amrywiol sy'n adlewyrchu pobl Cymru. Gan hynny, byddwn yn recriwtio i gyrraedd ein targedau ar gyfer cynrychiolaeth ymhlith ein staff a'n Bwrdd Rheoli.

Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn gwneud mwy i feithrin amrywiaeth gynrychioladol yn y sector llenyddiaeth. Byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli i ddatblygu'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial. Ymhlith awduron Cymru, dylai fod pobl o wahanol oedran, cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, rhywedd, rhanbarthau ac ieithoedd, ac ni ddylai mathau penodol, cyfyngedig o ddemograffeg eu nodweddu. Nid mater o gau neb allan yw hyn. Mae'n golygu rhoi mynediad cyfartal a theg i gyfleoedd i arloesi'n artistig a datblygu'n broffesiynol. Byddwn yn hyrwyddo ac yn rhoi llwyfan i awduron gorau Cymru ac yn creu rolau llysgenhadol gan ystyried yn ofalus yr angen i adlewyrchu pobl Cymru'n well.

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

- Yn unol ag argymhellion Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, rydym wedi asesu ein gweithdrefnau recriwtio ac wedi'u gwneud yn fwy hygyrch, gan gael gwared ar rwystrau i ymwneud â ni.
- Cyhoeddi'n eang gyfleoedd am swyddi a galwadau ar gyfer rolau llysgenhadol, a mynd ati'n bwrpasol i annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol.
- Cydnabod gwerth ystyried potensial (ynghyd â phrofiad) a dilyn yr egwyddor hon pryd bynnag y bydd yn bosibl.
- Dilyn ein Polisi Caffael i sicrhau cymaint o dryloywder a chynifer o gyfleoedd teg â phosibl.
- Mynd ati'n bwrpasol i gyflwyno amrywiaeth ymhlith y staff ac aelodau'r Bwrdd pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.
- Gweithio gyda phartneriaid sydd â gweithluoedd amrywiol a cheisio ysbrydoli sefydliadau eraill i amrywio'u gweithluoedd hwy.
- Parhau i sicrhau bod ein hawduron talentog o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli yn cael eu hyrwyddo ac yn cael sylw a llwyfan. Sicrhau bod ein hunigolion sy'n esiamplau i'w hefelychu (e.e. beirdd plant) yn cynrychioli awduron o bob cefndir.
- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector llenyddiaeth i gyflawni ein nod cyffredin o greu sector llenyddiaeth a chyhoeddi mwy cynrychioladol a chynhwysol yng Nghymru.
- Adolygu'r prosiectau presennol nad ydynt yn cyflawni'r nod hwn yn llwyddiannus, e.e. Gwobr Llyfr y Flwyddyn, ac ystyried newidiadau radical.

**Tryloywder a Mesur Cynnydd**

- Rydym yn asesu ein penderfyniadau recriwtio a phenodi yn unol â'n meysydd blaenoriaeth ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Rydym yn cynnal dadansoddiadau monitro a gwerthuso rheolaidd, gydag adroddiadau mewnol misol ac adroddiadau a gyhoeddir yn chwarterol.
- Rydym yn cyfathrebu ein penderfyniadau am benodiadau a recriwtio yn glir.

**Camau Ychwanegol**

- Annog gwaith mewn partneriaeth gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn recriwtio pobl o gefndiroedd amrywiol.
- Parhau i roi hyfforddiant a gwersi i'w dysgu i staff, e.e. hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod.
- Sicrhau ein bod yn cyfathrebu ein heffaith ac yn dathlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhlith ein gweithlu a'n rolau llysgenhadol.

# Methodolegau i'n Cefnogi

Byddwn yn rhoi ein camau gweithredu ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith drwy'r dulliau canlynol:

## Cyflawni'n Uniongyrchol ac ar y Cyd mewn Partneriaeth

Gan ddilyn ein Model Cyflawni, byddwn yn blaenoriaethu'r dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni ein hamcanion ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a hynny pan fyddwn yn cynnal gweithgareddau'n uniongyrchol ac yn gweithio mewn partneriaeth ill dau. Pan fyddwn wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, neu wedi hwyluso sefydliadau eraill i ddarparu gweithgareddau, mae'r naill ochr a'r llall wedi elwa'n sylweddol. Rydym wedi cyrraedd cyfranogwyr ac awduron nad oeddem wedi'u cyrraedd o'r blaen, ac mae ein partneriaid wedi darganfod arbenigedd a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r dulliau hyn o gyflawni ar y cyd yn creu effaith gynaliadwy, sy'n aml yn fwy hirhoedlog. Drwy drosglwyddo'r gwaith rhaglennu i awduron sy'n gweithio mewn cymunedau, neu wrth i weinyddwyr ym maes y celfyddydau weithio mewn lleoliadau unigryw, rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl eraill ddatblygu gweithgareddau sy'n cyd-fynd orau ag anghenion penodol. Yn ein tro, byddwn yn uwchsgilio ac yn cyfoethogi'r ymarferwyr hyn drwy hyfforddiant a thrwy roi profiadau newydd iddynt, a hynny wedyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar werthuso ein gwaith yn fanylach. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, treialu dulliau cyflawni newydd, a defnyddio'r broses hon a'r dysgu myfyriol sy'n rhan ohoni i lywio a strwythuro ein gweithgareddau at y dyfodol.

## Cynlluniau cyllido ac ariannu

Bydd ein holl gynlluniau cyllido yn dilyn ein targedau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan neilltuo cyllid pan fydd galw, a thrwy ddatblygu cynlluniau cyllido newydd, unigryw, fel y cynllun Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli, a'n Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o Liw, sy'n cael ei noddi gan y Loteri. Yn achos prosiectau fel cyllid Awduron ar Daith i drefnwyr digwyddiadau, byddwn yn cyflwyno gofynion fel rhan o'n contract ac yn gofyn am dystiolaeth, fel data monitro amrywiaeth. Byddwn yn cynnig cymorth ac arweiniad (gweler Hwyluso yn y Sector).

## Hwyluso yn y Sector a Hyfforddiant Mewnol

Wrth gyflawni'r amcanion hyn ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, rydym wedi ymrwymo i rannu arferion da, cyngor a phrofiad gyda'r sector celfyddydau yng Nghymru.
Byddwn yn cydweithio â sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ynghyd ag eraill er mwyn gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y celfyddydau.
Bydd hyfforddiant parhaus i staff drwy'r holl sefydliad – o staff gweithredol i staff sy'n darparu gweithgareddau – yn canolbwyntio ar ragfarn ddiarwybod a chynhwysiant yn ein holl feysydd gwaith






# Prosiectau Gweithredol

Nod prosiectau gweithredol Llenyddiaeth Cymru yw sicrhau bod y targedau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cyrraedd, a bod y cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd, gan gynnwys:

- **Chwilio am Ymgeiswyr Amrywiol**

Byddwn yn meithrin perthnasau cryfach â sefydliadau eraill, rhwydweithiau a chwmnïau sydd ag arbenigedd a mynediad at gyfranogwyr sy'n arddel Nodweddion Cleientiaid a Dargedir.

- **Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Byddwn yn disgwyl i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud yn uniongyrchol â ni gwblhau ffurflen fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i ddadansoddi gyda phwy rydym yn gweithio, a phwy sydd wedi'i dangynrychioli ymhlith ein rhanddeiliaid.

- **System Chwilio am Dalent**

Bydd system i chwilio am dalent ar waith lle bydd unigolion sy'n dangos rhagoriaeth yn cael eu hannog i wneud cais am gyfleoedd yn y dyfodol i ddatblygu'n broffesiynol ac yn greadigol.

- **Cyflwyno Amrywiaeth – Staff a Llywodraethu**

Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwn o fod yn rhan o Gynllun Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i ehangu eu dulliau recriwtio a datblygu talent amrywiol. Byddwn hefyd yn rhoi hyfforddiant i'r tîm gweithredol mewn recriwtio cynhwysol a rhagfarn ddiarwybod, a byddwn yn teilwra ein hysbysebion am swyddi er mwyn i bobl weld ein bod yn fwy hygyrch.

- **Cyfathrebu Effaith: Adrodd ein Stori**

Byddwn yn defnyddio'r data gwerthuso cynyddol a fydd gennym, gan roi sylw i straeon personol ac unigol sy'n dangos effaith Llenyddiaeth Cymru yn fwyaf clir, gan greu astudiaethau achos a datblygu ffeithluniau. Bydd y rhain yn cael eu cyfathrebu'n sensitif er mwyn adrodd straeon ein cleientiaid, ac yn ei thro, ein stori ni.



# Adolygu

Bydd y cynllun gweithredu hwn a gwybodaeth am y cynnydd tuag at y targedau yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru er mwyn eu trafod a'u hadolygu'n flynyddol.

Croesawn unrhyw gyfraniadau gan y cyhoedd a gan y sector celfyddydau. Gellir anfon y rhain i:


**Llenyddiaeth Cymru**
Canolfan Glyn Jones, Canolfan Mileniwm Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

post@llenyddiaethcymru.org




# Atodiad 1

Bydd yr adroddiadau canlynol yn rhoi cyd-destun deddfwriaethol a pholisi pellach ar gyfer y ddogfen hon, a chyfeirir atynt uchod:

- ***Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)***
- ***Mesur y Gymraeg (2011)***
- ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)***
- ***Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru***
- ***Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr***
- ***Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon Poblogaeth ac Aelwydydd ar gyfer Cymru, Mawrth 2011***

Bydd y dogfennau a'r polisïau canlynol gan Llenyddiaeth Cymru yn rhoi rhagor o gyd-destun a gwybodaeth am y ddogfen hon, a chyfeirir atynt uchod.

- ***Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019 – 2022***
- ***Cynllun Datblygu'r Gymraeg Llenyddiaeth Cymru***
- ***Polisi Cyfle Cyfartal Adnoddau Dynol Llenyddiaeth Cymru***
- ***Polisi Caffael Llenyddiaeth Cymru***
- ***Polisi Hygyrchedd Llenyddiaeth Cymru***

Mae'r holl bolisïau ar gael i'w gweld ar gais.